Afasic GeirfA

Anhwylderau datblygiadol hydreiddiol

Beth yw anhwylderau datblygiadol hydreiddiol?

Derbyniwyd y term yn gyntaf ym 1980 gan Sefydliad Seiciatrig America. Ers hynny mae wedi cael ei gadw ac wedi'i dderbyn yn eithaf eang yn America. Fe'i dewiswyd i ddisgrifio awtistiaeth a chyflyrau sy'n rhannu'r nodweddion tebyg gydag awtistiaeth. Yn y DU a chyfandir Ewrop datblygwyd y term Anhwylder Sbectrwm Awtistaidd at yr un diben. Mae'r gair **datblygiadol** yn pwysleisio bod y broblem yn bresennol yn gynnar ym mywyd y plentyn. Mae **hydreiddiol** yn awgrymu yr effeithir ar sawl agwedd ar ddatblygiad y plentyn.

Yn y DU ac yn Ewrop dadleuir, er bod yr anhwylderau'n rhai hydreiddiol nad ydynt yn hydreiddiol i bob agwedd ar ddatblygiad. Beirniedir y term am fethu ag esbonio beth yw'r anhwylder gan nad yw'n disgrifio natur y nodweddion annormal sy'n gysylltiedig â'r cyflwr. Fodd bynnag, dadleuir hefyd bod 'awtistiaeth' wedi profi i fod yn derm diagnostig eithaf ymarferol. Dylid ei gadw, yn arbennig am ei fod wedi cael cydnabyddiaeth eang, gan ddisgrifio cyflwr anodd lle y mae help arbenigol yn ofynnol, ac am fod y cyhoedd newydd ddechrau deall anghenion person sydd ag awtistiaeth – sy'n egluro pam bod pobl yn ffafrio'r term 'anhwylder sbectrwm awtistiaeth'.

Yn America, fodd bynnag, credir bod y term **anhwylderau** datblygiadol hydreiddiol yn llawer gwell na'r term 'awtistiaeth' gan ei fod yn rhydd o syniadau cyfeiliornus ynglyn â'r cyflwr. Dadleuir, er bod amrywiaeth o gyflyrau a gaiff eu cynnwys o dan y term **anhwylderau datblygiadol hydreiddiol** yn rhannu rhai nodweddion tebyg, mae'r dybiaeth bod pob un yn fath amrywiol o awtistiaeth heb ei phrofi, ac nad yw'n ddefnyddiol. I ateb hyn, dadleuir bod ymchwil gan seicolegwyr yn awgrymu'n gynyddol bod gallu gwybyddol cymhleth, eang ond penodol a elwir yn 'cysyniad y meddwl' yn sail i bob cyflwr sy'n debyg i awtistiaeth. Gellir dod o hyd i'r pwynt hwn ac i fanylion am y cyflyrau hyn mewn Taflenni Geirfa eraill.

Mae'r Dosbarthiad Rhyngwladol o Glefydau yn derbyn y gair Americanaidd, sef **anhwylder datblygiadol hydreiddiol**.

Cyfeiriadau

American Psychiatric Association (1987), *Diagnostic and statistical manual of mental disorders*, 3ydd argraffiad, diwygiwyd (DSMIII – R), Washington DC

World Health Organisation (1990), *International Classification of Diseases*, 10fed diwygiad (ICD – 10), Geneva

Taflenni Geirfa perthnasol eraill

- Anhwylderau semantig a phragmatig (5)
- Awtistiaeth (7)
- Y sbectrwm awtistaidd (8)
- Syndrom Asperger (11)

Sefydliadau eraill a all helpu

Royal College of Speech and Language Therapists
2 White Hart Yard, London SE1 1NX
Ffôn: 020 7378 1200

Ysgrifennwyd gan Bob Daines, seicolegydd addysgol, gyda diolch i Elizabeth Auger, athrawes iaith arbenigol.